**Date**/Dyddiad 21 May 2018
**Ask for**/Gofynnwch am M Matthews
**Telephone**/Rhif ffôn 01446 709727
**Fax**/Ffacs
**e-mail**/e-bost MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk
**Your Ref**/Eich Cyf
**My Ref**/Cyf MM/LLANC

The Vale of Glamorgan Council
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

Cyngor Bro Morgannwg
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

At: Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan;
Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llancarfan;
Ymgyngoreion Rhagnodedig

Annwyl Ymgynghorai,

**Cynnig i adlunio darpariaeth gynradd yng ngorllewin y Fro trwy:**

- **Greu adeilad ysgol gynradd newydd 210 lle gydag ysgol feithrin 48 lle rhan amser ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan yn y Rhws;**
- **Symud staff a disgyblion o Ysgol Gynradd Llancarfan i'r adeilad ysgol newydd;**
- **Ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 oed i 3-11 oed.**

Ym mis Mawrth 2018, lansiodd y Cyngor ymgynghoriad newydd â'r bwriad o gael golwg cyfannol ar ddarpariaeth ysgolion cynradd yng ngorllewin y Fro. Nod yr ymgynghoriad oedd rhoi gwybod i'r gymuned am gynnig ail-drefnu ysgolion a gyflwynwyd i adeiladu adeilad ysgol newydd 210 lle ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan gyda 48 lle ysgol feithrin rhan amser yn y Rhws, a cheisio adborth ar y cynnig hwn.

Cododd aelodau'r gymuned nifer o bryderon pwysig ynghylch yr effaith ar eu hardaloedd lleol yn ogystal â gofyn cwestiynau ychwanegol am y cynnig wrth geisio sicrhau y deëllid eu barn.

O ganlyniad i'r adborth, teimlodd y Cyngor ei bod yn bwysig cynnwys rhagor o fanylion yn y ddogfen ymgynghori a rhoi'r cyfle i randdeiliaid ystyried hyn mewn amserlen ymgynghori newydd.

Amgaeaf gopi o'r ddogfen ymgynghori sy'n disgrifio ein cynnig ac yn egluro sut y gallwch ymateb. Mae'r cyfnod ymgynghori'n cychwyn ar 21 Mai 2018 ac yn dod i ben ar 9 Mehefin 2018.

Mae sesiynau galw heibio cyhoeddus wedi eu trefnu fel rhan o'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mercher 20 Mehefin 2018<br>9:00am – 11:00am<br>3:00pm – 7:00pm | Ysgol Gynradd Llancarfan |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Gwener 22 Mehefin 2018<br>3:00pm – 6:00pm | Canolfan Gymunedol Celtic Way, Celtic Way, y Rhws |

Mae'r ddogfen ar gael i'w gweld ar-lein yn:
www.valeofglamorgan.gov.uk/westernvalereconfiguration

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Mike Matthews ar 01446 709727 neu anfonwch e-bost: MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk

Yn gywir,

Lisa Lewis
Rheolwr Gweithredol
Strategaeth ac Adnoddau

**Correspondence is welcomed in Welsh or English**/Croesawir Gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg